# papur priordy



**Gogoniant i'r Goruchaf Dduw,**
**Am roi ei Fab i'n plith i fyw;**
**Angylion gân â llawen lef –**
**Daw dyddiau'r ddaear fel y nef.**

**J D Vernon Lewis**

*Gweler yr erthygl y tu mewn*

**Rhifyn 372**
**PAPUR RHAGFYR 2023**

# Gair gan ein Gweinidog

## *Disgleiried dy oleuni…*

***ONID*** yw goleuadau Nadolig y dref yn ddigon o sioe eleni eto!



Dau gof plentyn sydd gen i am osod y goleuadau Nadolig yn ein tŷ ni – yn gyntaf, dadwneud y wifren sy'n dal y goleuadau ynghyd – roedd rhywun i fod i osod y cwbl yn deidi yn yr atig ar ddiwedd yr Ŵyl y flwyddyn gynt ond heb ddal at ei addewid a ninnau'n dioddef y Nadolig canlynol oherwydd ei esgeulustod!

A'r ail atgof yw gweld fy nhad, druan, yn siecio pob bwlb yn ei dro – oherwydd pe bai un bwlb yn methu fe fyddai'r cwbl lot yn peidio â gweithio!

Da yw adrodd fod pob bwlb yn gweithio'n berffaith yng Nghaerfyrddin ar hyn o bryd a'r dref yn fôr o olau a lliw.

Canhwyllau a fyddai'n cael eu defnyddio yn addurniadau'r Nadolig slawer dydd wrth gwrs. Doedd dim gofid am iechyd a diogelwch yn y cyfnod hwnnw!

Ond yr un yw swyddogaeth bwlb a channwyll – sef taflu golau.

Dathlwyd yr Ŵyl Hindwaidd Diwali yn ystod mis Tachwedd, gŵyl sydd yn cael ei galw'n Ŵyl y Goleuadau. A gŵyl y goleuni yw'r Nadolig hefyd i Gristnogion wrth ddathlu geni Iesu, goleuni'r byd.

Wrth ddathlu'r goleuni, fedrwn ni ddim peidio â meddwl wrth baratoi ar gyfer yr Ŵyl eleni am y tywyllwch sydd yn ein byd. A does dim angen edrych ymhellach na'r gymuned yr ydym yn rhan ohoni. Mae'r cynnydd yn y defnydd o fanciau bwyd yn sylweddol, 1,650 o blant Sir Gâr wedi elwa o Apêl Anrhegion Nadolig y Cyngor Sir y llynedd, canolfan Galw-i-Mewn Byddin yr Iachawdwriaeth ein tref yn eithriadol o brysur, bwndeli babanod Plant Dewi yn cwrdd ag angen nifer fawr o rieni newydd, y Ganolfan Trais Domestig a'r Lloches i Fenywod yn rhy brysur o lawer – a blas yn unig yw'r enghreifftiau hyn sydd o dan ein trwynau ni yma yng Nghaerfyrddin. Diolch am bob cefnogaeth i bob apêl yn ystod y flwyddyn

a aeth heibio. Ein braint ni yw cynorthwyo.

Tra oeddwn i'n gwylio Cymru yn chwarae yn erbyn y Barbariaid yn Stadiwm y Mileniwm cwpl o wythnosau'n ôl, dyma un neu ddau o'r 50 mil o dyrfa'n cychwyn sheino'r golau ar eu ffôn symudol. Cydiodd eraill yn y syniad, a chyn pen dim roedd miloedd o oleuadau bach yn torri ar draws y tywyllwch ym mhob cornel o'r stadiwm.



Hoffwn i feddwl taw dyna'r alwad i ni – bod yn oleuadau bach o obaith yn torri ar ofn y tywyllwch i nifer y Nadolig hwn, a phob amser.

***POB BENDITH I CHI I GYD DROS YR ŴYL***.

**Gweddïwn**



'Y mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch,
ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef.'

Diolch i ti Arglwydd am lewyrchu dy oleuni yn ein byd trwy dy fab Iesu Grist.

Cyffeswn ein bod yn rhy aml yn dewis anwybyddu'r goleuni a roddwyd i ni, oherwydd bod yn well gennym y tywyllwch. Rho i ni, O Dduw, y gras o wir edifeirwch, fel y gallwn brofi dy faddeuant ac fel y cawn fyw yn fwy fel plant y goleuni.

Mewn byd o dywyllwch, Arglwydd … Disgleiried dy oleuni.

Mae'r goleuni yn llewyrchu yn y tywyllwch. Diolchwn i ti, O Dad, am y modd yr wyt ti'n treiddio i bob tristwch, gan gynnig gobaith i'r gwangalon, gorfoledd mewn galar a bywyd lle mae angau.

Mewn byd o dywyllwch, Arglwydd … Disgleiried dy oleuni.

Ac nid yw'r tywyllwch wedi ei drechu ef. Dros fywydau pob un sydd wedi goleuo Dy ffordd mewn mannau tywyll, pob un sydd wedi parhau yn ffyddlon drwy ddioddefant mawr ac erledigaeth, ac am y sicrwydd y bydd Dy wironedd yn para byth,
bendithiwn Di.

Mewn byd o dywyllwch, Arglwydd …Disgleiried dy oleuni.

Cofiwn y rhai hynny sy'n gyfrifol am artaith, y rhai sy'n ei orchymyn, yn ei gefnogi neu sy'n ei anwybyddu. Llewyrcha i'w calonnau, O Arglwydd, fel y gwelant di yn wynebau eu dioddefwyr, ac y cânt y dewrder i droi o'u drygioni.

Mewn byd o dywyllwch, Arglwydd …Disgleiried dy oleuni.

Gweddïwn ar ran pob mudiad sy'n gweithio er mwyn gwaredu'r byd o artaith ac sy'n rhoi cymorth i rai sydd wedi dioddef.

Mewn byd o dywyllwch, Arglwydd …Disgleiried dy oleuni.

**Amen**

**DARLLENIADUR**

| Mis Rhagfyr | Darlleniad |
|---|---|
| **Adfent 1** | **Eseia 64: 1-9** |
| **Adfent 2** | **Eseia 55: 1-11** |
| **Adfent 3** | **Eseia 61:1-4; 8-11** |
| **Adfent 4**<br>**Noswyl Nadolig** | **Luc 2: 1-14** |
| **Bore Nadolig** | **Ioan 1: 1-14** |
| **Wythnos 5** | **Luc 2: 22-40** |

**Pob bendith dros Ŵyl y Nadolig**
**oddi wrth**
**Beti-Wyn, Elin a Sara**
**Diolch am eich cefnogaeth i ni fel teulu yn ystod 2023, yn enwedig mewn awr dywyll.**



**PANED A SGWRS**



**Bore Mercher - 10.30 - Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**24 Ionawr 2024**
**Cyfle am baned, sgwrs a myfyrdod byr**

**DIOLCH YN FAWR**

*Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad*

**DYDD GWEDDI'R BYD**
**a**

**JANET A GWYNFOR DAVIES**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***



**YN DYMUNO NODDI PAPUR PRIORDY?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**

**CWRDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR Y PRIORDY**

**Nos Fercher 28 Chwefror 2024 am 7.30 dros Zoom**

**Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid a'r ymddiriedolwyr eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda.**

**CWRDD DIACONIAID A BLAENORIAID AC YMDDIRIEDOLWYR GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN**

***Nos Fercher 20 Mawrth 2024 – Bancyfelin – 7.30***

**CASGLIADAU**

**Dydd Sul 3 Rhagfyr 2023**

**Bydd y casgliad rhydd yn mynd at Ganolfan Galw-i-Mewn Eglwys y Bedyddwyr Saesneg i'w helpu i baratoi Cinio Nadolig (ar Ddydd Nadolig) ar gyfer anffodusion ein tref.**

**Dydd Sul 10 Rhagfyr 2023**

**Bydd y casgliad rhydd yn mynd at yr Ysgol Sul i hyrwyddo gweithgarwch gyda'r to iau.**

**Y Sul hwn hefyd y gwneir ein casgliad olaf er cwblhau'r cyfrifon am y flwyddyn.**

**CYDADDOLI**



Ar fore pumed Sul mis Hydref, daeth aelodau capeli Heol Awst ac Elim atom i gydaddoli, Roedd yr oedfa yng ngofal un o'n diaconiaid, Elinor Wyn Reynolds, a gyflwynodd i ni neges hynod o berthnasol a phwrpasol i'n hoes.

Beth bynnag yw'n rheswm dros ddod i'r capel, mae'n dda ein bod yn dod ac yn dal ein gafael yn yr arfer. Mae'n brofiad da i'r corff, y galon a'r enaid i wrando ac ystyried a chlywed gair Duw yn y cwrdd. Dyma sy'n gymorth i ni gadw fflam gobaith ynghynn mewn oes mor ddreng a thywyll ar lawer ystyr.  Diolchwn mai neges o obaith yw neges Iesu hyd yn oed yn yr awr dywyllaf ac nad yw fflam cariad Crist byth yn diffodd. Ein priod waith ni fel Cristnogion a lladmeryddion dros Iesu yw lledaenu llais gobeithiol Crist er mwyn gwneud y byd yn well lle i fyw ynddo.

Diolch i Hywel Evans (Heol Awst), Elisabeth Evans (Elim) am y darlleniadau, Catrin Heledd Jones (cyhoeddiadau), Peter Hughes Griffiths a Heledd Jones (casglyddion), Heather Williams (organ) ac Elis Jones (technolegydd)

**GAIR O WERTHFAWROGIAD**

Mae'r Priordy wedi derbyn rhodd hael drwy ewyllys y diweddar Victor Jones (Erw Hir gynt). Cofiwn yn annwyl iawn amdano a gwerthfawrogwn ei rodd yn fawr.

Rydym wedi prynu meicroffonau ychwanegol ar gyfer y capel. gyda'r rhodd ariannol a dderbyniwyd er cof am y ddiweddar Mari Jenkins.  Diolch i'r teulu am ei haelioni ac i Ieuan Wyn am ei gymorth wrth brynu'r offer.

**Dechrau Blwyddyn Newydd yn Dda!**
**Y TYST –50c y rhifyn!**
**Cysyllter â Sulwyn Thomas**



## CWRDD EGLWYS

**Cynhaliwyd Cwrdd Eglwys yng nghapeli Gofalaeth y Priordy, Cana a Bancyfelin a Gofalaeth Heol Awst ac Elim yn ddiweddar. Cynllun newydd posibl ar gyfer dyfodol y gofalaethau oedd y testun dan sylw.**


**Pledleisiodd pob capel dros sefydlu gofalaeth newydd yn cynnwys pum eglwys drwy uno Gofalaeth Y Priordy, Cana a Bancyfelin a Gofalaeth Heol Awst ac Elim dan weinidogaeth lawn amser y Parchedig Beti-Wyn James. Bydd eglwysi'r Ofalaeth newydd rhyngddynt yn cynnal ein Gweinidog a hefyd yn ariannu'r weinidogaeth ddigidol (sy'n cael ei hariannu gan y Priory'n unig ar hyn o bryd).**

**Fe godwyd ambell gwestiwn a chafwyd trafodaeth fer yn y cyrddau eglwys, sydd, wrth gwrs, yn beth hynod o iach ac adeiladol. Mae'n hyfryd dweud nad oedd yr un gwrthwynebiad i'r cynigion.**

**Daw'r Ofalaeth Newydd – Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin - i rym ar 1 Ebrill 2024. Felly, ymlaen â ni gyda'n gilydd yn un llais ac yn gwbl hyderus a gobeithiol i'r dyfodol.**

**Byddwch yn derbyn bwletinau rheolaidd wrth i'r cynlluniau fynd rhagddynt.**





***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS***
***Y PRIORDY***

*Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da*

Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin?

Trowch at: cyfundeb.com



# Y Priordy

## Gweithgor y Dyfodol – Oedfaon Teuluol
## Ddydd Sul 14/01/2024 a 10/03/2024

**Yn dilyn trafodaethau Gweithgor y Dyfodol yn ddiweddar, penderfynwyd arbrofi trwy gynnal Oedfaon Blasu Teuluol mewn adeiladau y tu allan i Gapel y Priordy yn achlysurol.**



**Ein bwriad fel Eglwys felly yw cynnal yr oedfa gyntaf o'r rhain ar ddydd Sul y 14eg o Ionawr 2024 yn neuadd Nurture Centre /Canolfan Magu, sef yr hen Ganolfan Galw-i-Mewn tu 'nôl i adeilad Marks & Spencer yng nghanol Caerfyrddin.**

**Yn ogystal, byddwn yn cynnal ail oedfa flasu deuluol ar Ddydd Sul y 10fed o Fawrth 2024 yn ystafell Cothi, sef y brif ystafell yn adeilad Halliwell, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.**



**Yn dilyn yr oedfaon bydd cyfle gwych gennym i gymdeithasu a mwynhau paned.**

**Nodwch felly y dyddiadau os gwelwch yn dda. Edrychwn ymlaen at gael eich cwmni, gan obeithio y bydd cynulleidfa niferus yn bresennol i gefnogi'r fenter gyffrous hon.**



**Cofion cynnes atoch chi i gyd.**

**Elis Jones**
**(Cadeirydd Gweithgor Dyfodol Y Priordy)**

**Eurwen Jones…**

## Nadolig fy Mhlentyndod

## Nos Cyn 'Dolig



Roedd drws ffrynt ein ffarm fach ni – yr unig ddrws! – yn agor yn syth mewn i'r gegin. Nos cyn 'Dolig ac roedd perthnasau a chymdogion a hen ffrindiau yn galw heibio. Mwynhau'r tanllwyth glo carreg yn y grât, ffender bres a chanwyllerni pres yn rhes ar y silff-ben-tân yn disgleirio. Ar y ford fawr ynghanol y stafell lamp baraffin ('double burner') ar gynn a chanhwyllarn bres â channwyll yn barod i'w chynnau yn barod i Mam i'w chario mewn i'r gegin fach i nôl y platiau blasus i roi siâr i bawb i'w fwyta cyn mynd tua thre.



Tenau oedd yr addurniadau: cadwyn amryliw (unwaith) o bapur wedi rhwygo ond sawl sbrigyn o gelyn coch ar y mantelpîs, tu ôl i'r cloc a'r lluniau ac ar y dresel. Cwmni difyr a phawb yn wilia a jocio. Ar y gadair wrth y drws eisteddai Emrys, gwas ffarm Hendre Las, yn gwynto o dail da a chwrw! Rown i'n dwlu arno ac yn arfer eistedd yn ei gôl tra oedd e'n darllen i fi. Heno rown i'n eistedd ar arffed Anti Olwen, chwaer hyna Mam, yn fy ngŵn nos yn gyffrous ond yn ofnus iawn hefyd. Heno roedd Father yn mynd i alw. Nid Santa na Siôn Corn ond Father. Dyna pam roedd y criw hapus wedi dod at ei gilydd, pawb yn chwerthin ac yn tynnu coes.





Yn sydyn dyma ergyd drom ar y drws. Mae e 'ma. Father wedi cyrraedd! Y drws yn agor led y pen a dyn chwe throedfedd yn ei wisg laes goch a chwcws coch wedi'i addurno â ffwr gwyn, barf hir wen, wellingtons ar ei draed a phastwn yn ei law a sach fawr lawn ar ei gefn. 'Nadolig Llawen i chi i gyd,' meddai. 'Nadolig Llawen Father,' meddai pawb. Troi ac yn rhoi cusan i ambell ferch – sbri fawr! 'Owc ci Dowc i chi ontefe,' medde fe wrth Mam.

'…. Y…. Ie, ie,' meddai Emrys yn swil. Shwt oedd Father yn gwybod ei ffugenw?!

Camu mlaen i'r aelwyd ata i: 'A beth i chi'r un fach i yn moen gyda Father 'fory?' Crynais, 'O ma' Anti Oli'n gwybod!' Roedd y cyffro a'r arswyd yn drech na fi.



Bore trannoeth codi a brecwast wrth y tân. Arogl y ffowlyn yn digoni yn y ffwrn a gwynt y stwffin yn llanw'r lle. Wrth y tân y pwdin 'Dolig yn berwi'n braf. Mam yn agor drws y parlwr. 'Dere i weld.' Yno roedd coeden 'Dolig pum troedfedd mewn potyn, wedi ei addurno â pheli bach o wlân cotwm, ambell ruban lliwgar a chadwyni papur. Ar y ford gerllaw hosan hir at ben-lin Dad yn llawn o drysorau: cnau, afal, oren prin ac anrhegion pitw a losin neu siocled. Dol – dim ond y pen oedd o lestr, llyfrau - Rupert Annual, Nursery Rhymes, a bag bach lledr coch i'w gario ar fy ysgwydd.




Gwledd wedyn y Cinio Nadolig a'r Pwdin.

Wedi te, cerdded i'r Consart yn y Festri.  Stôf haearn fawr wedi ei chynnau ers y prynhawn i wresogi'r lle i'r gynulleidfa fawr. Talentau'r pentre a'r capel oedd y cwbwl: Lexie yn adrodd cerddi Abiah Roderick, y llon a'r lleddf. Pedwarawd neu wythawd o'r capel. 'Dim lle yn y llety' a Bwthyn ar y Bryn.'  Bryn y Baritôn a 'Swanee River' a fe a Benni a'r 'Bold Gendarmes' poblogaidd.



**NI'R PLANT** yn cael ein cario i eistedd ar sil y ffenestri i roi lle i ragor o oedolion. Roedd yr anwedd ar y ffenestri wedi troi'n ddŵr gan wlychu'r 'Black Out.'  Rhaid peidio â phwyso'n ôl a gwlychu'n cefnau. Y ddwy soprano yn hudo'r gynulleidfa a'r canu cynulleidfaol o'r carchar yn codi'r to. 'Cawn ni unawd nawr ar y berdoneg,' meddai Dic Jenkins yn ei Gymraeg swanc!

Ar ddiwedd y noson pawb wedi eu cyfareddu â'r pleser o gwmni ei gilydd a'r hwyl a'r sbri yn heintus.  Cymuneb glos hapus.

Cerdded drwy'r pentre wedyn yn gwmni llon, siaradus drwy'r Black Out. Ni'n pedwar yn eu gadael a throi am adre dros y caeau. Diolch byth am olau'r lleuad lawn a'r miloedd sêr ar noson rewllyd ac anadl ni'n pedwar yn gymylau gwyn o'n blaen. Tawelwch. Sŵn ein traed yn taro ambell garreg ac yna sŵn rhyw fustach yn peswch tu hwnt i'r clawdd. Crynu a dal llaw Mam. 'Dere ar fy nghefen i,' medde Dad. O'r cysur o fod yn saff ar ei gefn.  Sŵn hwtian gwdihŵ yng nghoed y Plas. 'O mae ofan arno i,' gwaeddais. Dim ond dweud 'Ma' nhraed i'r oer' mae hi,' medde Mam yn bendant.  Teimlo'n well wedyn. Yna sŵn cadno'n cyfarth o'r Waun Lwyd gerllaw. Cryd eto!

'Falle gwrddwn ni â Father ar ei ffordd tua thre wedi cwpla ei dyrn da o waith,' medde Dad. 'O na dw i ddim am ei weld e eto'.

Cyrraedd adre i'r gegin gynnes a dringo'r staer garreg lan i'r llofft. Mair a minnau am y cyntaf i neidio mewn i'r gwely plu. O'r cysur wrth suddo mewn i'r gwely cyfforddus. Y gore erioed!

Mam yn ein gadael a golau'r 'night light' (cannwyll fach fitw) yn arnofio mewn soser o ddŵr ar y ford fach. Cysur mewn golau, er mor wan, yn y tywyllwch.




**Teledu?**  Pwy sy eisie hwnnw a lluniau'r cof mor fyw – a hynny wedi pedwar ugain mlynedd …. a mwy….

**SIÂN PHILILIPS**

**Hywel Gwynfryn**

**Y Lolfa**
**Tachwedd 2023**
**£9.99**

***Cofiant i un o actorion mwyaf eiconig Cymru erioed***



**Digwydd dod ar draws y Parchedig Ddr Caroline Jones yn gwirio'i chyfrol newydd ac dyma fanteisio ar y cyfle i'w holi ychydig amdani…**



**PP**: **Llongyfarchiadau i chi ar gyhoeddi'ch llyfr – Time to Tell. Allwch chi ddweud ychydig wrthon ni am y cynnwys.**
**CJ**: *Ffrrwyth syniad cenhadol a drafodais gyda'r Esgob Joanna yw'r llyfr sy'n amlygu'r trysorau sydd gennym yn ein heglwysi a'n habatai a'r tu allan iddynt y gall pobl ddod i'w gweld heb unrhyw bwysau arnynt i fynychu gwasanaethau ac ati. Ei unig bwrpas yw agor ein drysau led y pen i'r rhai sy'n ceisio'r Gwirionedd ac i amrywiol bobl eraill.*

**PP: Beth wnaeth eich ysgogi i ysgrifennu'r llyfr yn y lle cyntaf?**
**CJ:** *Es i i arddangosfa arbennig yn yr Amueddfa Brydeinig yn 2012 o'r enw Trysorau o'r Nefoedd: Seintiau, Creiriau a Defosiwn yn Ewrop Canoloesol. Roedd yno greiriau o bob rhan o'r byd, llawer o ddaeargelloedd y Fatican. Roedd y cyfan yn rhyfeddol ac yn ystod y cyfnod clo pan ddysgais fy hunan sut i ysgrifennu / paentio eiconau ro'n i'n dal i feddwl am yr arddangosfa a sut mae pobl drwy'r oesoedd wedi ceisio profi rhywbeth cyffyrddadwy – sydd, wrth gwrs yn anghyffyrddadwy. Meddyliais am y pethau sy'n eiddo i ni gan dybio y dylen ni eu rhannu heb unrhyw amodau. A dyna sut y dechreuodd fy ymdrech i chwilio am greiriau tebyg!*




**PP: A oes yna unrhyw drysor mewn eglwys yn Ne Orllewin Cymru sy'n apelio'n arbennig atoch?**
**CJ:** *Oes, mae llawer iawn mewn gwirionedd ond y mae un yn arbennig, sef Eicon Concrid o'r Fam a'i Phlentyn yn Eglwys Sant Martin Hwlffordd. Cafodd ei greu gan Steven Sykes a oedd yn Uwchgapten yn yr Uned Cuddliwio yn yr Ail Ryfel Byd. Mae mor arbennig mewn sawl ffordd. Cafodd Sykes hefyd ei gomisiynu i greu Crist yng*

Nghapel Gethsemane ar gyfer Cadeirlan Coventry ar ôl y rhyfel.

**PP: Dywedwch ychydig wrthym amdanoch chi'ch hun**
**CJ:** *Rwy'n arlunydd, hanesydd celf, canoloesydd ac yn offeiriad ordeiniedig cyflogedig. Rwy'n byw ar dyddyn uwchben Felin-wen yng Nghaerfyrddin. Rwy'n gallu gyrru tractor hefyd ac weithiau dw i'n credu fod hyn yn creu fwy o argraff ar blwyfolion na'r pethau eraill ar fy CV!*

**PP: Ble gallwn ni brynu'ch llyfr?**
**CJ:** *Siopau llyfrau mewn cadeirlannau a hefyd, gobeithio, Siop Lyfrau Amgueddfa Caerfyrddin, gan fod sôn yn y gyfrol am y lle hwnnw wrth drafod dau wrthrych. Mae Cyngor Llyfrau Cymru hefyd yn mynd i helpu i'w ddosbarthu. Mae'n ddyddiau cynnar, wrth gwrs, a gall pobl fy e-bostio i brynu llyfr neu fy ffonio.*

**PP: Rych chi'n byw bywyd llawn ond tybed a oes llyfr arall gennych mewn golwg?**
**CJ:** *Wel oes ond dw i'n dymuno ailafael mewn paentio i ddechrau er mwyn ymlacio ychydig ar ôl yr ymdrech fawr o gywain gwybodaeth ac ymchwilio ar draws Sir Gâr, Sir Benfro a Cheredigion!*




**PP: Diolch yn fawr iawn i chi, Caroline, am ateb y cwestiynau. Pob llwyddiant i Time To Tell. Mae'n siŵr y bydd o ddiddordeb mawr i lawer.**

**Time to Tell, Caroline Jones - £25 (i blwyfolion ac i ninnau!)**
**Cyswllt: caroline.jones08@btinternet.com**



***YN DYMUNO CYFAMODI?***

**DENNIS JONES**
**YSGRIFENNYDD Y CYFAMODI**


**Croeso i chi gysylltu ag e!**

**Mwynwen Jones…**



## Lleuwen Steffan a fy Nhad-cu David Griffiths

***PROFIAD*** rhyfedd oedd adnabod llawysgrifen




hynod gain fy nhad-cu David Griffiths gynt, ar y cyfryngau cymdeithasol ddiwedd yr haf. Rhan o hysbyseb ydoedd yn tynnu sylw at ddigwyddiad ym Mhencader lle roedd y gantores adnabyddus Lleuwen Steffan, yn dod i wneud cyflwyniad ar Emynau Llafar Gwlad a sôn am gynlluniau oedd ganddi'n seiliedig yn rhannol ar waith roedd fy nhad-cu wedi ei gasglu ac roedd hi'n awyddus cyflwyno hynny i'r teulu yn gyntaf.



Roedd Lleuwen yn ymddiddori mewn emynau llafar gwlad ac yn gweld bod trysorfa o emynau heb eu cynnwys yn Caneuon Ffydd a theimlai fod fy nhad-cu yn un o'r nifer prin o bobl oedd wedi gwneud gwaith arbennig yn cofnodi nifer fawr ohonynt. Daeth Lleuwen ar draws casgliad o'i waith yn Amgueddfa Werin Sain Ffagan a dyna oedd yr ysgogiad iddi ddatblygu syniadau ar gyfer cynhyrchiad cerddorol a gweledol newydd na fyddai wedi bodoli fel arall.



Brodor o Gwm-du, Sir Gâr oedd tad-cu a gafodd ei eni ym 1910. Gadawodd y byd addysg yn bymtheg oed gan fynd yn was fferm i Pistyll Gwyn, Capel Isaac ac yna i fferm Pont-ar-lyb, Llanfynydd. Wedi cyrraedd yno, cafodd ei dynnu i Gapel Amor lle y treuliodd ran helaeth o'i oes fel diacon ac ysgrifennydd. Roedd e'n dipyn o gasglwr, yn casglu llyfrau am emynwyr a phregethwyr yn bennaf ac yn eu darllen yn drylwyr. Roedd wastad bapur a phensil

ganddo wrth law ac roedd ei gasgliad o lyfrau'n llawn nodiadau manwl a phytiau o wahanol bapurau newydd.
Byddai'n barddoni hefyd yn y Gymraeg ac yn Saesneg a byddai ambell weinidog yn cael gwahoddiad i bregethu ar ffurf cerdd. Er nad oedd fy nhad-cu yn gyrru, byddai'n teithio dipyn i areithio ar yr emynwyr ac mae'n cyfeirio mewn un araith bod saith deg o emynwyr yn Sir Gâr yn unig.

Roedd emynau Ann Griffiths, Dolwar Fach yn dipyn o ddylanwad ar Lleuwen a teg fyddai dweud bod fy nhad-cu'n edmygwr mawr ohoni hefyd. Ei farn ef oedd taw William Williams, Pantycelyn oedd brenin yr emynwyr, Ann Griffiths yn frenhines a Morgan Rhys, Llanfynydd wedyn yn dywysog. Byddai fy nhad-cu'n mentro mynd mor bell â dweud bod mwy o ganu ar emynau Morgan Rhys na rhai Williams Pantycelyn er bod rhyw fil o emynau o waith William Williams a rhyw ddau gant yn unig o waith Morgan Rhys. Tybed a feddyliodd erioed y byddai'n cael ei gladdu rhyw ddiwrnod yn yr un fynwent â Morgan Rhys?




Profiad hollol emosiynol oedd gwrando ar recordiad o'i lais tra oedd Lleuwen yn atgyfnerthu ei eiriau yr un mor angerddol ar gân. Roedd fy rhieni yn eistedd un ochr i mi, a Gwenan ac Elliw ar yr ochr arall. Teimlwn yn ddyledus iawn i Lleuwen am roi cipolwg i'r merched o'u hen dad-cu. Roedd y gorffennol, y presennol a'r dyfodol yn plethu'n un y diwrnod hwnnw a theimlwn fy mod yn pasio rhywbeth hynod werthfawr ymlaen i'r merched mewn mwy nag un ystyr.



***DIOLCH*** yn fawr bod y digwyddiad ym Mhencader wedi ei drefnu ac i ni gael y cyfle i fynd ond teimlwn hefyd y byddai wedi bod o fudd i Lleuwen fod wedi cael cyfarfod fy Wncwl, Lloyd Griffiths sy'n byw ym Mhont-ar-lyb heddiw ac yn ffyddlon iawn yng Nghapel Amor gan feddwl yn ffyddiog y byddai'n gallu rhannu mwy o wybodaeth gyda hi. Cytunodd Lleuwen

heb unrhyw berswâd ddod nôl o Lydaw unwaith eto i wneud ei chyflwyniad yn Amor a chafodd ymweld â Phont-ar-lyb hefyd. Mor falch bod hyn wedi digwydd ac roedd hi'n fraint o'r mwyaf bod yno ac roedd gwrando arni'r eildro yr un mor bwerus â'r tro cyntaf.

***Llun y Teulu – Disgynyddion y diweddar David Griffiths yng nghwmni Lleuwen Steffan yng nghapel Amor.***

**LLEUWEN AR DAITH**

**Newyddion arbennig o dda yw clywed am y datblygiad diweddaraf lle bydd Lleuwen yn cychwyn ar daith o gwmpas capeli ac Eglwysi Cymru yn y flwyddyn newydd i rannu ei gwaith ar Emynau Coll y Werin. Nodwch y dyddiad gan y bydd yn dod atom ni i Festri'r Priordy Nos Lun 22 Ebrill 2024 am 7 o'r gloch. Rwy'n disgwyl 'mlaen yn fawr.**

**APÊL FFYNHONNAU BYW**

***Yn ystod 2023-2024 mae Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn cynnal apêl enwadol i godi arian at waith Cymorth Cristnogol, gan ganolbwyntio'n benodol eleni ar eu gwaith yng Ngholombia.***




**Lansiwyd yr Apêl yn rhithiol ar Nos Fercher 22 Tachwedd 2023. Ymunodd Nathalie Mericer, Rheolwr prosiect Cymorth Cristnogol, yn fyw â'r Lansiad o Golombia.**

cymorth cristnogol

**Cewch fwy o wybodaeth am yr Apêl ar wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Byddwn yn clywed mwy am hyn yn y Priordy yn y flwyddyn newydd.**

Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org

# *Stampiau Cristnogol - Nadolig 2023*
















Mae’r Post Brenhinol yn dathlu Nadolig 2023 gyda chyfres o bum stamp a ddyluniwyd yn arbennig gan Tom Duxbury, arlunydd a darlunydd sy’n dod yn wreiddiol o Swydd Efrog.



Mae’r pum stamp yn seiliedig ar garolau, sef Y sanctaidd nos, O dawel ddinas Bethlehem, Dawel nos, Yn gorwedd mewn preseb a Tri ŷm ni o’r dwyrain.

**Y dyddiadau postio olaf a argymhellir er mwyn i bost gyrraedd mewn pryd ar gyfer y Nadolig yw:**

**Dydd Llun 18 Rhagfyr 2023 ar gyfer post Ail Ddosbarth**
**a**
**Dydd Mawrth 19 Rhagfyr 2023 ar gyfer post Dosbarth Cyntaf**

**Papur Priordy'n cofio….**



**EMLYN EVANS**
**1923-2014**

***ROEDD*** Emlyn Evans yn rheolwr Llyfrau'r Dryw, Llandybie 1957-65 a Gwasg Gee Dinbych 1978-2001 ac yn berson allweddol yn y byd cyhoeddi Cymraeg. Bu'n gyfrifol am feithrin doniau llenyddol yn yr iaith Gymraeg ac am argraffu llyfrau o gryn werth.

Fe'i ganed 4 Rhagfyr 1923, sef can mlynedd yn ôl i'r mis hwn, yn y Carneddi, Bethesda. Aeth i Goleg y Brifysgol, Bangor a dilyn cwrs gradd mewn Peirianwaith Trydan, Ffiseg a Mathemateg Bur.

Bu'n gweithio fel peirianydd mewn gorsafoedd trydan yn ardal Llundain, Chwaraeodd ran amlwg yng ngweithgareddau Cymraeg a Chymreig y ddinas. Roedd yn aelod o Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac yn gapelwr selog a gweithgar. Priododd Eileen Morley Jones yn Llundain yn 1947 a ganwyd dau o blant iddynt, Dafydd a Morfudd. Dechreuodd ymddiddori mewn darparu llyfrau Cymraeg. Sefydlodd Gymdeithas Llyfrau Cymraeg Llundain a bu'n ysgrifennydd iddi. Rhwng 1953 a 1958 cyhoeddodd y Gymdeithas hanner dwsin o lyfrau bob blwyddyn, yn cynnwys gwaith gan rai awduron Cymraeg cyfoes o fri. Arweiniodd hyn maes o law at flaengareddau mwy, fel sefydlu Cyngor Llyfrau Cymru ym 1961.

Perswadiwyd Emlyn Evans gan Alun Talfan Davies, perchennog cwmni cyhoeddi Llyfrau'r Dryw, i ddychwelyd i Gymru i ddod yn rheolwr gyfarwyddwr arno. Datblygodd y cwmni'n gyflym a sylfaenodd yntau, ynghyd ag Alun ac Aneurin Talfan Davies, y cylchgrawn materion Cymraeg cyfoes Barn a daeth yn olygydd cyntaf. Fodd bynnag, ymddiswyddodd o Lyfrau'r Dryw ar fater o egwyddor. Cododd anghytundeb ynglŷn â chyhoeddi nofel John Rowlands *Ienctid Yw 'Mhechod.* Roedd Emlyn Evans yn erbyn cyhoeddi.

Ym 1965 daeth yn athro economeg a mathemateg yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, 1965-1978 a hefyd yn ddiweddarach yn ddarlithydd rhan-amser yn y Coleg Technegol ym Mangor.

Rhwng 1968 a 1979 bu'n cyd-olygu *Y Genhinen* (Y Geninen yn wreiddiol) gyda'r Parch W Rhys Nicholas – cylchgrawn yr ailddechreuwyd ei gyhoeddi gan Wasg Gomer.

Yna, ym 1978, ar ôl ychydig dros dair blynedd ar ddeg ym myd addysg, ailddychwelodd i fyd llyfrau pan ddaeth yn rheolwr-gyfarwyddwr Gwasg Gee yn Ninbych.

Cyhoeddodd hunangofiant O’r Niwl a’r Anialwch ym 1991 a chyfres o erthyglau, Rhwng Cyfnos a Gwawr, yn 2012.

Bu farw ar 13 Tachwedd 2014.

***MAE*** ei hunangofiant yn cynnwys nifer o’i gerddi ac yn eu mysg yr emyn canlynol sy’n seiliedig ar adnodau o’r Bregeth ar y Mynydd yn Efengyl Mathew. Fe’i cyhoeddwn yn deyrnged iddo wrth gloi:

**EMYN Y GWYNFYDEDIG**

**Tôn – Ellers neu Birmingham**
**Mathew 5, 3-12**



Y tlodion yn yr ysbryd, gwyn eu byd,
Cans eiddynt hwy yw’r deyrnas oll ynghyd;
A gwyn eu byd y rhai mewn galar trist –
Cânt brofi’n helaeth o ddiddanwch Crist.

Yr addfwyn rai fydd wynfydedig mwy:
Y ddaear lawn a etifeddant hwy;
Mewn newyn neu mewn syched yn ddigoll
Am bob cyfiawnder, fe’u diwellir oll.

Y trugarogion, hwy trugaredd gânt,
A’r pur o galon, gweled Duw a wnânt;
A phawb yn ffordd tangnefedd sydd yn byw –
Hwynt-hwy a elwir mwy yn blant i Dduw.



Y rhai sydd dan bob erledigaeth gref
O blaid cyfiawnder, eiddynt deyrnas nef;
A gwyn eich byd, pan waradwyddant chwi,
A hwy’n gelwyddog oll – o’m hachos i.

# NADOLIG LAURA MCALLISTER



**Sut ydych hi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?**

***Mae'n dibynnu ble ydyn ni a dweud y gwir. Ambell waith, i lawr yn y gorllewin gyda theulu Llinos, fy mhartner i. Os i lawr yna, diod yn y Cawdor cyn cinio yn nhŷ fy chwaer yng nghyfraith ym Methlehem. Yr un peth os ydyn ni i lawr ym Mhen-y-bont gyda fy nheulu i ond diod yn Nhafarn Trelales gyda fy nhad a theulu fy mrawd y tro yma. Ar yr achlysuron prin pan fyddwn ni gartref yng Nghaerdydd rydyn ni'n dewis mynd i Fwyty Indiaidd Red Chilli ym Mharc Fictoria, hoff le'r plant ond, rhaid cyfaddef, braidd yn anarferol ar gyfer cinio Nadolig!***

**Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?**

**Cwrs Cyntaf**

***Salad Caprese gydag Avocado i ddechrau***

**Ail Gwrs**

***Nut roast llysieuol gyda'r holl drimins***

**Trydydd Cwrs**

***Pwdin Dolig cartref wedi'i wneud gan fy ffrind Michele – yn ogystal â gwin da a chwrw Cymreig!***

**Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?**

***Pan o'n i'n bedair cael cit pêl-droed Dinas Caerdydd a chit newydd Cymru ar yr un pryd! Yr holl git hefyd – sanau, siorts, crys a thracwisg.***

**Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?**

***Dawel Nos. Mae'n f'atgoffa o'r cyngherddau yn yr ysgol nôl ym Mhen-y-bont.***

**OEDFA DEULU A CHYMUN A BEDYDD**
**5 Tachwedd 2023**










# Ifanc@Priordy






# Chwilotair y Nadolig

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| D | L | I | I | E | S | U | A | G | S | N | S | A | D |
| W | F | F | E | S | O | J | A | M | N | O | D | E | O |
| Y | N | N | E | D | E | O | C | R | M | I | M | U | R |
| R | A | I | A | L | D | D | C | E | G | D | W | I | E |
| A | U | D | N | B | Y | M | H | O | H | D | A | C | H |
| I | R | D | G | A | E | E | Y | R | O | Y | R | A | G |
| N | M | O | E | T | L | S | U | R | R | W | B | N | O |
| B | N | H | L | H | N | Y | E | L | R | E | R | N | L |
| U | A | R | T | Y | R | E | I | R | N | N | E | W | A |
| G | N | E | R | E | S | U | F | F | P | O | N | Y | U |
| A | B | N | A | B | A | B | O | D | N | R | I | L | W |
| I | H | N | L | L | E | T | Y | G | A | M | N | L | E |
| L | U | A | L | O | R | A | C | H | A | W | E | A | N |
| I | R | I | A | M | R | T | H | U | S | N | O | C | L |

BUGAIL
NEWYDDION
BETHLEHEM
DWYRAIN
COEDEN
BRENIN
ANGEL
AUR
ADFENT
GOLAU
HEROD
JOSEFF
IESU
MAIR
RHODD
PRESEB
CAROLAU
BABAN
THUS
CANNWYLL
SEREN
MYRR
LLETY

Diolch yn fawr iawn i Jayne a fydd yn gorffen fel Arolyges yr Ysgol Sul wedi 8 mlynedd o waith arbennig. Diolch Jayne.

Nadolig llawen i chi gyd a diolch am eich ffyddlondeb i'r Ysgol Sul trwy gydol y flwyddyn




Hwyl am y tro, *Beti Wyn*

# Y GYMDEITHAS









# NADOLIG IOAN GRUFFUDD



**Sut ydych hi'n hoffi treulio'ch dydd Nadolig?**

***Dw i erbyn hyn yn byw yn Los Angeles ac mae traddodiadau gwahanol iawn gennym yma. Pan oeddwn yn byw yng Nghymru, dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl erbyn hyn, dwi'n cofio ein bod ni fel teulu yn cael ein cinio Nadolig fel Swper Nadolig ar Noswyl Nadolig. Bu hyn yn draddodiad ers blynyddoedd i gael ysgafnhau'r baich ar ddydd Nadolig ei hun gan ein bod ni yn teithio lawr i Orllewin Cymru i ddathlu gyda Mam-gu lawr ym Mancffosfelen ac yna i Gastell Nedd gyda Mam-gu a Tad-cu yno. Bydden ni fel teulu wedi bod i'r capel fore'r Nadolig ac wedi cael brechdanau twrci a mins peis a phaned o de cyn teithio lawr i'r Gorllewin***

**Beth yw'ch cinio Nadolig delfrydol?**

**Cwrs Cyntaf**

***Mi oeddwn wrth fy modd gyda 'prawn cocktail' fy mrawd***

**Ail Gwrs**

***Bu Mam yn aml yn coginio twrci ysblennydd neu gig eidion. Dw i'n cofio pan yn blentyn, gwneud rhywfath o grochan neu bair gyda'r 'Yorkshire Pudding' a rhoi tameidiau bach o bopeth ynddo gyda'r grefi***

**Trydydd Cwrs**

***Cacen Nadolig Mam! Fe fu'r ffrwythau yn eistedd yn socian ac yn cael eu marinadu mewn sieri am wythnosau cyn i'r gacen gael ei phobi. Ac yna'r marzipan a'r eisin yn fendigedig o wych!***

**Beth yw'r anrheg Nadolig gorau gawsoch chi erioed?**

***Dwi'n cofio fy mrawd a finne yn cael beiciau drop handle '`Raleigh' un flwyddyn. Roedd cael esgyn rhiwiau gyda'r 'gears' newydd yn chwyldroadol.***

**Beth yw'ch hoff garol Nadolig a pham?**

*‘O deued pob Cristion’. Mae’r alaw yn fendigedig ac mae’r cwpled “Daeth Brenin yr hollfyd i oedfa ein hadfyd er symud ein penyd a’n pwn’ wedi aros gyda fi hyd heddiw.*

## CORNEL

## CODI GWÊN!

Wedi’r oedfa un bore Nadolig, meddai Tomos bach wrth y gweinidog: ‘Rwy’n mynd i gadw fy holl siocled Nadolig ar eich cyfer chi.’ ‘Wel dyna garedig ohonot,’ atebodd y gweinidog. Ac meddai Tomos bach: ‘Mae angen eich ffido chi oherwydd mae dad yn dweud taw chi yw’r pregethwr gwannaf mae e wedi’i glywed erioed!’


**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN**

**CWRDD CHWARTER**
**Dydd Iau, 14 Mawrth 2024**
**Heol Awst**

**Y Gynhadledd am 10.30**
**Cyfarfod y Prynhawn am 1.30**
**Siaradwr Gwadd**
**Y Parchedig Robin Samuel ar y pwnc**
**Ffynhonnau Byw**
**Croeso i bawb**








**CALENDR ADFENT RHITHIOL YR OFALAETH**


**Ymunwch â ni’n ddyddiol drwy’r Adfent Ar Wepryd Capel y Priordy**

**Diolch i Angharad a Ieuan Wyn am baratoi’r Calendr**

## RHOWCH GYNNIG ARNI!

# LLANWCH Y BYLCHAU!

## Hanes geni Iesu y Meseia



**Tua'r un adeg dyma Cesar -------- yn gorchymyn cynnal --------- drwy'r Ymerodraeth Rufeinig i gyd. (Hwn oedd y cyfrifiad cyntaf, gafodd ei gynnal cyn bod Cwiriniws yn llywodraethwr -----.) Roedd pawb yn mynd adre i'r trefi lle cawson nhw eu ----, i gofrestru ar gyfer y cyfrifiad. Felly gan fod Joseff yn perthyn i deulu'r Brenin -----, gadawodd Nasareth yn ------- a, a mynd i gofrestru yn Jwdea — yn Bethlehem, hynny ydy tref Dafydd. Aeth yno gyda Mair oedd yn mynd i fod yn wraig iddo, ac a oedd erbyn hynny'n ------ babi. Tra roedden nhw yno daeth yn amser i'r babi gael ei eni, a dyna lle cafodd ei phlentyn ------ ei eni — bachgen bach. Dyma hi'n ----- cadachau geni yn ofalus amdano, a'i osod i orwedd mewn ---- ar gyfer bwydo anifeiliaid. Doedd dim llety iddyn nhw aros ynddo.**


**ATEBION**

**Gweler Luc 2: 1-7 yn Beibl.net**

**HWYL DROS YR ŴYL!**

**CWIS NADOLIG Y PRIORDY – 2023**

***Mae'r darluniau hyn i gyd yn portreadu digwyddiadau arbennig yn y Beibl. Allwch chi ddweud beth ydynt?***

| | | | |
|---|---|---|---|
|  | |  | |
| ***1*** | | ***2*** | |
|  | |  | |
| ***3*** | | ***4*** | |

| | | | |
|---|---|---|---|
|  | |  | |
| ***5*** | | ***6*** | |
|  | |  | |
| ***7*** | | ***8*** | |
|  | |  | |
| ***9*** | | ***10*** | |

***Pob lwc! Atebion ar Dudalen 43***

**DECHRAU TYMOR NEWYDD Y GYMDEITHAS**

***AM*** ddechrau ardderchog i Dymor y Gymdeithas. Taith fach i Abergwili i Barc yr Esgob sy'n edrych mor wych, hyd yn oed yn yr Hydref – diolch i waith Ymddiriedolaeth Porth Tywi. Parcio'r car ac yna anelu at Amgueddfa Sir Gâr ble roedd croeso cynnes yn ein disgwyl. A gyda llaw, un sy'n gweithio'n wirfoddol i estyn croeso i ymwelwyr i'r Amgueddfa yw Eirlys Davies ond gwestai, fel ninnau, oedd hi'r tro hwn!



Mae'r Amgueddfa hon a ailagorwyd yn Ionawr 2022, yn ogystal â'r Parc, wedi gweld gwelliannau mawr – o drwsio'r to a oedd yn gollwng hyd at wella'r orielau a chreu rhai newydd.  Mae llawer o'r diolch am hyn i'n siaradwr gwadd, Peter Hughes Griffiths, am ei arweiniad cadarn a goleuedig yn ystod y cyfnod pan oedd yn Aelod Cabinet ar Gyngor Sir Gâr gyda chyfrifoldeb am Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth. Mae'n parhau, wrth gwrs, yn aelod gweithgar o'r Cyngor ac yn lladmerydd cryf dros bethau gorau'r genedl.



Disgrifiodd Peter ein man cyfarfod fel y lleoliad pwysicaf yn hanes Cymru ac nid heb reswm ychwaith. Pan ddaeth Richard Davies yno'n Esgob Tyddewi ym 1561 datblygodd y palas yn gartref i'r Dadeni yng Nghymru. Un a ddeuai yno oedd William Salesbury, prif ysgolhaig y Dadeni. Clywsom sut y pasiwyd Deddf Cyfieithu'r Ysgrythurau i'r Gymraeg gan y Senedd ym 1563 ac am gyfraniad mawrion fel Richard Davies, William Salesbury a'r Esgob William Morgan, ynghyd â'u hynt a'u helynt, yn y gwaith cyfieithu. Penllanw'r gweithgarwch mawr hwn oedd cyhoeddi'r Beibl Cymraeg ym 1588 a hynny'n rhoi amlygrwydd mawr i'n hiaith i'r graddau ei fod wedi diogelu'r iaith, y diwylliant a'r traddodiadau.

Dymuniad Peter yw gweld ffigyrau modelau cwyr o Davies a Salesbury wrth eu gwaith yn yr Amgueddfa, tebyg i'r cerfluniau cwyr bywydol sydd
yn amgueddfeydd cwyr enwog Madame Tussauds mewn nifer o ddinasoedd ledled y byd. Byddai hyn yn apelio'n fawr at ymwelwyr,

yn cynnwys y to iau, yn enwedig gan fod Hanes Cymru'n rhan greiddiol o'r cwricwlwm erbyn hyn. Syniad ardderchog yn ein barn ni oll a phwy well na Peter i fwrw'r maen i'r wal!

Ar ôl cyflwyniad diddorol gan Peter cawsom gyfle i grwydro o gwmpas yr Amgueddfa. Fe'n siarsiwyd i fod yn sylwgar ac i edrych allan yn



arbennig am gadair Eisteddfod Genedlaethol Caerfyrddin 1819 a enillwyd gan Gwallter Mechain. Roedd yr Eisteddfod hon yn ddigwyddiad o bwys gan mai dyma'r tro cyntaf i Orsedd y Beirdd gael ei chysylltu'n swyddogol ag eisteddfod. Hefyd, Tobias and the Angel, sef darlun o Weithdy Adrea del Verrocchio sydd yn yr Amgueddfa fel rhan o'r daith Campweithiau yr Oriel Genedlaethol 2021-23.  Yn dyddio o 1470-5 mae tystiolaeth gref fod rhannau o'r paentiad gan Leonardo da Vinci a oedd yn un o fyfyrwyr Verrocchio.



Wedi dychwelyd at ein gilydd unwaith eto, dyma Peter yn ein holi am y pethau a oedd wedi creu'r argraff mwyaf arnom. Cawsom atebion hynod o hwyliog a diddorol a datgelwyd ambell gyfrinach hefyd!  Er enghraifft, wrth drafod cynnyrch gwlân, deallwyd fod John Meredith wedi derbyn pâr o 'long-johns' gwlân yn anrheg ymddeol a bod Peter yn gwisgo pâr hefyd pan mae'n gwylio CPD Caerfyrddin yn chwarae pêl-droed yn y gaeaf! Am hwyl! Ymhlith y mannau diddorol eraill yn yr adeilad yr ymwelwyd â nhw oedd Capel yr Esgob Laud a chlywsom gan Malcolm Jones am y casgliad cynhwyfawr o Feiblau a Thestamentau a fydd i'w gweld gennym yn yr Amgueddfa yn y dyfodol.

Paned a Theisen wedyn yn y Caffi ym Mharc yr Esgob a'r sgwrsio'n parhau am y prynhawn difyr a gafwyd.

***DIOLCH*** i'n Gweinidog am lywyddu'r prynhawn a threfnu'r ymweliad ynghyd â Phwyllgor y Gymdeithas.  Diolch yn arbennig i Peter sydd, fel y gwyddom yn dda, yn feistr ar y grefft o gynnal gweithgarwch fel hwn.

**Gofynnwyd i rai o aelodau'r Priordy ateb y cwestiwn *Beth mae'r Nadolig yn ei olygu i chi? yn gryno* Diolch iddynt am fod mor barod i gyfrannu. Dyma'u hatebion:**



.

**Elen Marks**



Mae'r Nadolig i mi yn gymysgwch o straen, rhestrau, mins peis i frecwast a rhedeg o amgylch munud ola! Ond mae hefyd yn gyfnod llawn cariad, teulu, ffrindiau a hapusrwydd. Mae'n gyfle i roi saib ar wallgofrwydd y siopau a'r gwario ac i synfyfyrio ar y gwir bwrpas, sef dathlu Geni Crist.

**Tim Hayes**



Pan glywai'r gair "Nadolig" – dw i bron yn gallu teimlo gwres a gweld goleuni. Atgof clir sydd gennyf fel crwtyn bach yn tyfu lan yn Y Borth oedd cael tynnu'r tân trydan allan o'r aelwyd a gosod yr hen grât a chynnau tân agored am ryw wythnos pob Nadolig! Gyda'r glo a'r pren yn llosgi, a'r hen simne'n tynnu, a phawb yn ymgynnull yn yr ystafell ffrynt, roedd hi'n aml yn llawer rhy dwym! Dw i'n cofio'n glir teimlo'r croen yn pinsho wrth dod mewn i'r ystafell ar ól bod am wâc ar hyd y traeth yn y gwynt main. Doedd dim golygfa fwy croesawgar ychwaith na gweld goleuadau'r goeden drwy ffenestr y stafell ffrynt wrth i ni deithio nôl i'r tŷ - yn enwedig pan oeddwn yn dychwelyd am y tro cyntaf ar gyfer y Nadolig o'r Brifysgol neu o'm swydd gyntaf. Goleuadau syml cofiwch - nid fel y rhai sydd o amgylch nawr - dim fflashio, dim byd ffansi, jyst arwydd o groeso cynnes yn disgwyl unrhyw ymwelydd. A dyna'n syml yw neges y Nadolig am wn i, Goleuni'r Byd a'r croeso cynnes sydd gydag Ef ar ein cyfer, a'r gymdeithas gynnes sydd gan deulu'r Ffydd at ei gilydd.

**Margaret Evans**

#



Yn blentyn y chwedegau yn Llannon, roedd y Nadolig yn golygu cyffro, prysurdeb, parti'r ysgol Sul neu'r *Christmas Tree* fel y'i gelwid, ymweliad Santa, canu carolau ac wrth gwrs stori'r geni. Erbyn hyn, mae'r Nadolig yn dawelach ond yn hudol o hyd - amser i fwynhau cwmni'r teulu ac i gofio stori'r Iesu a'i neges o obaith a hedd

**Alwen Owen**



Mae'r Nadolig yn dechrau i mi ychydig wythnosau cyn hynny gyda siopa am anrhegion amrywiol i'r teulu a mynychu dathliadau Nadolig y capel a gwasanaeth Nadolig Ysgol Bro Myrddin sydd bod amser yn uchafbwyntiau. Ers i'r merched adael y nyth mae'n hyfryd edrych ymlaen i'w gweld yn dychwelyd am gyfnod y Nadolig a chael cyfle i fynd allan i gerdded, cymdeithasu gyda ffrindiau a chael cyfle i ddal i fyny gyda'r teulu estynedig drwy gynnal parti blynyddol sydd yn dipyn o achlysur gan fod pawb erbyn hyn yn byw ar wasgar o Gaernarfon i Aberystwyth, Caerfyrddin, Caerdydd a Llundain.

**Menna Elfyn**



Nadolig gwyn? Go brin erbyn hyn. Ond noswyl y Nadolig yw'r cyfnod sy'n fy nghyffroi. Adeg hudolus. Yn blentyn, byddem yn agor anrhegion bryd hynny gan y byddai Plygain yn y capel am 5 o'r gloch y bore, ar ddydd Nadolig. Erbyn hyn, daeth arfer newydd i fod – sef mynd i Lansteffan  gyda thermos, a thafell bacwn mewn ffoil, a chael brecwast ar y traeth mewn steil! Hynny , cyn ymuno  â'r teulu yng Nghaerfyrddin neu ymhellach i ffwrdd yn Aberystwyth.

**Tudur Dylan Jones**



**Nadolig**

Geni oesol brawdoliaeth, – ac yn Hwn
geni hen gwmnïaeth,
geni'n ôl pob gwên a aeth,
a geni gwneud gwahaniaeth.



**Cerdd Ddigri Fuddugol Peter Hughes Griffiths yn Eisteddfod Gadeiriol Llanarth**





**Y beirniad oedd Catrin Haf Jones, y gohebydd gwleidyddol**

## CYFADDEFIAD

Ac er fy mod i'n Gardi a'r Tori mwya mas,
Fy nghyfaddefiad ichi, sa'i ishe bod yn gas
Yw dweud yn awr heb flewyn – a hynny'n eitha streit
Bo' fe'r hen Boris Johnson yn wir yn real geit!
Ond peidwch gweud wrth Catrin y fenyw o Gaerdydd,
Ma da hi lot o ffrindie sy am weld Cymru'n rhydd!
A fyddei ddim yn lico bo fi yn eitha cŵl
Yn dweud bod Boris druan i bawb yn bach o ffŵl.
Wi'n barod i gyfadde a gweud yn dawel pam
Bo fe yn foi go ddiflas, a hynny gam wrth gam!
Mae'n fachan am fenwod a thad i lot o blant,
Fel odd Lloyd George cyn hynny, sdim un o'r ddou yn sant,
Ma' disgynyddion hwnnw o hyd obiti'r lle,
Mwyafrif yn y gogledd ac un neu ddou 'ny de.
A wedyn pan ddath Cofid, fe welson ni y cawl
Yn rhoi miliyne'r contracts i ffrindie da heb hawl,
A chynnal yr holl bartis tu fiwn i nymbyr ten
Yn yfed ac yn meddwi a byth yn dod i ben,
Ac er bo lot o lunie a phawb mewn hwylie da
A Boris yn y canol – ond fuodd e ddim 'na!
A bois bach, gweud celwydde fel ci yn trotian siŵr
A ffili'n deg cyfadde – trwy'r amser yn creu stŵr.
A phan ddath amser Brecsit fe fuodd hwn yn gloi,

A gwedwch chi a fynnoch, fe dwyllodd e gwd boi
Pob Tom a Dic a Harri mor glyfar gyda'i drics
Ac argyhoeddi pob un mae'r ateb oedd ei ffics.
Ca'l bys i weud y byddai yn talu'r NHS
Ni welson ni'r un geinog – ma'r wlad ma'i gyd mewn mes,
Ac erbyn heddi ffrindie newidodd pawb ei diwn
Se refferendwm arall 'dde pawb am aros miwn.
Mae wastad yn anniben, sa'i ishe bod yn gas,
Ei wallt ar wrych bob amser a cwt 'i grys e mas.
Fe welwch chi e'n jogan i esgus cadw'n ffit
Mae'n edrych fel hen soga yn rhedeg yn ei git.
Ac er mod i yn para yn Dori mowr i'r carn
Waeth i ni gyd gyfadde – a rhydd i bawb ei farn,
O achos campe Boris – sa'i ishe bod yn gas,
Pan ddaw y lecshwn nesa bydd Rishi Swnac mas.

**DIOLCH YN FAWR**

Diolch i Beti-Wyn, Betsan James, Ieuan Wyn, Lowri Davies, Jayne Woods, Caroline Jones, Gareth Gravell ac Eurwen Jones am y lluniau'r mis hwn.

**RHAGHYSBYSIAD**
**CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A'R CYLCH**
**NOS SUL, 29 MEDI 2024 am 5**
**Capel Elim, Ffynnon-ddrain**

**Arweinydd**
**Sioned Page, Blaenycoed**

**Rihyrsals yng Nghapel Elim dan ofal Helen Gibbon**
**Nos Sul, 14 Gorffennaf am 5 a Nos Sul 8 Medi am 5**

**Prif Rihyrsal yng ngofal Sioned Page yng Nghapel Elim**
**Nos Sul, 15 Medi am 5**

***Cyfarfod i Aelodau Pwyllgor y Gymanfa, Nos Sul, 25 Chwefror 2024 am 5 yn Festri Heol Awst.***

**Edrychwn yn bennaf ar yr adeiladau**





**Mae'r eglwys wedi'i lleoli ym mynyddoedd Fagaras yn Rwmania. Rhaid defnyddio car cebl o gyrchfan gwyliau Balea Lac i fynd iddi.**


**Mae'r eglwys yn cael ei hadeiladu o'r newydd yn flynyddol gan ddefnyddio dŵr o Lyn Balea sy'n cael ei fendithio gan yr offeiriaid. Caiff talpiau o iâ eu torri wedyn gan ddefnyddio llif gadwyn. Mae'r darnau'n cael eu smentio â'i gilydd gyda dŵr a iâ i wneud yr eglwys.**

**Mae clerigwyr Protestannaidd, Catholigaidd ac Uniongred wedi cynnal gwasanaethau yno yn y gorffennol,**

**Mae'r eglwys wedi'i defnyddio ar gyfer gwasanaethau bedyddio a bendithio priodasau.**

## Penillion Carolaidd Arbennig

**Yng ngaeaf 1923, sef can mlynedd yn ôl, y troswyd o'r Almaeneg gan J D Vernon Lewis emyn Luther (1483-1546) i'w blentyn Hans: 'Vom himmel hoch' etc, sef 'Cân yr Angel' a Moliant Plentyn' – carolau ar gyfer cyfarfodydd plant Eglwys Gibea Brynaman. Dysgwyd y dôn iddynt, a'r plant yn canu emyn Luther yn Almaeneg ac yn Gymraeg. Eiddo Luther yw'r dôn hefyd.**



**Roedd John Daniel Vernon Lewis (1879-1970) yn frodor o Abertawe a bu'n weinidog ar eglwysi Annibynnol yn Lerpwl, Wrecsam a wedyn Gibea Brynaman (1921-35) nes ei ddewis yn Athro ac yna'n Brifathro Coleg Coffa Aberhonddu. Treuliodd ei ymddeoliad yn Aberllefenni ar y dechrau cyn symud i Fachynlleth.**

**Roedd Vernon Lewis yn ysgolhaig ac yn awdur o bwys. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu'n gwasanaethu mewn Almaeneg i garcharorion yn Aberhonddu a Glangwili, ger Caerfyrddin. Byddai hefyd yn darlithio yng Ngholeg Presbyteraidd Caerfyrddin.**

**Cyfieithodd Emyn Edwin Hatch – *Breathe on me, Breath of God'* i'r Gymraeg ac meddai*: Dyma'r emyn a adroddai y Parch. E. Keri Evans, Caerfyrddin a'i anadl olaf a gweddi erfynol emyn mawr Edwin Hatch ar ei fin, 4 Mehefin 4 1991, a minnau yn ddiarwybod yn cyfieithu'r emyn ar yr union ddydd y bu ef farw! Canwyd y cyfieithiad ar lan ei fedd yn Eglwys Llandyfrïog, Castell Newydd Emlyn, a thrachefn mewn gwasanaeth Coffa yn ei hen eglwys barchus, y Priordy, Caerfyrddin. Ar gais ei weddw, a'i ferch, Nesta Keri Wood, y genhades, pennais yr hyn sydd heddiw yn argraffedig ar ei fedd-faen yn Llandyfrïog.'***

**Dywed Y Bywgraffiadur Cymreig am Vernon Lewis: *'Safai ym mhob dim yn rheng y cewri, ac fel medelwr arbennig gadawodd ysgubau arbennig ar ei ôl.'***

**Ymysg yr ysgubau hynny mae'r gyfrol *Mawl i'r Goruchaf (1962)* sef casgliad o emynau a chyfieithiadau o'i eiddo. Yn y gyfrol hon y gwelir penillion carolaidd Luther:**

**Vom Himmel hoch komm ich her**
**Canys ganwyd i chwi heddiw Geidwad yn ninas Dafydd, yr hwn yw Crist yr Arglwydd – Luc ii, 11**

**Martin Luther, 1483-1546**

## CÂN YR ANGEL

**O'r nefoedd fry y deuthum lawr,**
**Gan ddwyn i chwi newyddion mawr;**
**Newyddion da a bery mwy,**
**Mi ganaf byth amdanynt hwy.**

**I chwi y ganwyd Ceidwad dyn,**
**Ac anfonedig Duw ei Hun,**
**Yn blentyn hardd a thyner iawn,**
**A ddwg i chwi lawenydd llawn.**

## MOLIANT PLENTYN

**Hwn yw ein Crist a'n Harglwydd ni,**
**Ym mhob rhyw loes fe wrendy'n cri;**
**Hwn yw ein Ceidwad cryf o hyd,**
**I'm gwneud yn lân a gwyn ein byd.**

**Ein calon mwy a lawenha,**
**I draethu y Newyddion Da;**
**O enau plant daw'r felys gân**
**Fu'n suo crud yr Iesu glân.**

**Gogoniant i'r Goruchaf Dduw,**
**Am roi ei Fab i'n plith i fyw;**
**Angylion gân â llawen lef –**
**Daw dyddiau'r ddaear fel y nef.**

**Heledd Tomos…**



## CWRDD TEULU

***AR*** Fore Sul y 5ed o Dachwedd cynhaliwyd ein Cwrdd Teulu misol. Roedd hi'n oedfa brysur gyda'r Band yn chwarae, Bedydd Noa Llywelyn, Cymun a llond lle o blant. Yn y band roedd Nikki wrth y piano, Jane ar y ffliwt, Tomos ar y drymiau a Gareth ar y gitâr fas. Croesawyd pawb i'r oedfa gan ein Gweinidog Beti-Wyn ac yna roedd y band yn llawn mynd wrth i ni ddechrau gyda'r Intrada - *Agor ein Llygaid* ac yna'r emyn gyntaf sef *Jubilate*.

Daeth Angharad ac Ieuan rhieni Noa ag ef ymlaen, a'i chwiorydd Greta a Miriam ar gyfer y Bedyddio. Braf oedd gweld y teulu a'u ffrindiau yno ac yn wir roedd Beti-Wyn yn adrodd yr hanes ei bod hi wedi bod yn rhan o fedyddio Wncwl Noa sef Gethin pan oedd hi'n fyfyrwraig. Cawsom ddarlleniad gan Gwilym a gweddi gan Nel. Roedd Noa yn ddigon bodlon ei fyd yn mreichiau Beti-Wyn yn ystod y Bedyddio ac yn mwynhau edrych ar y gynulleidfa. Cyflwynwyd y Dystysgrif Bedydd gan Alys a Mali. Cyhoeddodd Osian Emyn y Bedydd sef *Dod ar fy mhen*.

Gwnaeth Adrian y cyhoeddiadau a Cadi ac Ifan, Myfi, Deio a Bedw y casgliad. Wedi hyn aeth y plant i eistedd yn y blaen a thyfodd y Band yn eithriadol wrth i fand taro'r plant ymuno â nhw! Yr emyn oedd *Un cam bach* a phob plentyn bach yn cyfrannu at y sain.



Cawsom air gan Beti-Wyn am noson tân gwyllt ac fe glywon ni fod Iesu wedi cyhoeddi *'Myfi yw goleuni'r byd'*. Roedd y plant wedi cyffroi wrth weld Beti-Wyn yn dangos fod ganddi ffyn gwreichion yn y Capel! Cynnwyd cannwyll oedd yn medru llosgi am 4 diwrnod ac yna ar ôl cyfri lawr o 10, cynnwyd ffon wreichion, wel dwy a dweud y gwir! Dywedodd Beti-Wyn wrthym fod gennym oleuni Iesu am byth ac nid goleuni dros dro fel y ffyn gwreichion.

Yr emyn nesa i'w ganu oedd *Iesu Geidwad* ac yna arweiniodd Beti-Wyn y Cymun gyda'r diaconiaid yn mynd â'r bara a'r gwin o amgylch y Capel. Ein hemyn olaf oedd *Dyma gariad* ac yna'r fendith.



***ROEDD*** hi'n oedfa hyfryd yn llawn prysurdeb a chariad, a goleuni Iesu yn treiddio drwy'r Priordy.

## DYLETSWYDDAU

### GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS

| Rhagfyr | | Ionawr | |
|---|---|---|---|
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Dennis Jones | Huw Michael | Alun Charles | Adrian Evans |

### BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhagfyr | 3 | | Ionawr | 7 | Hefina Lloyd |
| | 10 | | | 14 | |
| | 17 | | | 21 | Margaret Lewis |
| | 24 | | | 28 | |
| | 31 | | | | |

### PARATOI’R BWRDD CYMUN

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhagfyr | 3 | Bore | Catrin Mair Jones ac Alison Parsons |
| Ionawr | 7 | Bore | Alison Parsons a Ffion Parsons |

### DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhagfyr | 3 | Meinir Jones | Ionawr | 7 | Y Teulu Woods |
| | 10 | Oedfa Nadolig | | 14 | Y Plant |
| | 17 | Alun Charles (Cana) | | 21 | Elis Jones |
| | 24 | Aelodau (Oedfa ddigidol) | | 28 | Catrin Heledd Jones |
| | 31 | Oedfa’r Ofalaeth | | | |

### CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhagfyr** | Catrin Heledd Jones | **Ionawr** | **Elis Jones** |

**Y DDIWEDDAR NORAH HUGHES**

Hunodd Norah yn dawel ar 13 Hydref 2023 yng Nghartref Preswyl Castell Tywi ble derbyniodd ofal arbennig yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Bu farw ond ychydig wythynosau wedi dathlu ei phen- blwydd yn 100.



Un o ferched Brynaman oedd Norah ac er iddi deithio a byw mewn nifer o lefydd yn ystod ei hoes hir, roedd Brynaman yn agos at ei chalon o hyd.

Gwraig urddasol a deallus a welodd lawer o newidiadau a datblygiadau yn ystod ei bywyd hir, ond a lwyddodd i addasu'n hawdd iawn. Nid peth anghyfarwydd oedd ei gweld yn darllen ei Kindle yng Nghastell Tywi ac roedd ei meddwl yn chwim a'i diddordeb yn fawr ym mhawb a phopeth hyd y diwedd.

Cafodd bleser mewn adrodd ar y cylchdaith eisteddfodol gan brofi cryn lwyddiant yn lleol ac ar lefel genedlaethol. Bu'n aelod brwd o gwmni drama'r Gwter Fawr ym Mrynaman dan arweiniad Eic Davies a Jennie ac Eirian Davies. Setlodd Norah a'i diweddar briod, Tudor yng Nghaerfyrddin ar ddechrau'r 70au a bu Norah'n aelod gwerthfawr o Meillion Myrddin a bu'n ffyddlon i'r Pethau.

Daeth atom ni i'r Priordy a bu'n aelod ffyddlon a thriw tan i'w hiechyd fethu. Bu'r teulu'n driw iawn iddi fel y bu Norah yn driw iddyn nhw. Y plant, Adrian, Leighton ac Elinor ynghyd â'r pum ŵyr/wyresau, chwe gorwyr/esau. Byddai Norah wrth eu bodd yn eu cwmni.

Gwerthfawrogodd Norah dderbyn copi o Bapur Priordy bob mis ynghyd ag ymweliadau gan ymwelwyr yr eglwys cyn y cyfnod clo.

Rhown ddiolch am ei bywyd llawn, llawen a hir. Cynhaliwyd ei hangladd yn Amlosgfa Treforys ar 9 Tachwedd. Gwasanaethwyd gan ei gweinidog ynghyd ag aelodau o'r teulu.

Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu gan weddïo y bydd i Dduw fendithio'r atgofion hyfryd sydd ganddynt o fam, mam-gu a hen fam-gu annwyl.

'Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth.'

**Beti-Wyn**

*EIN* **cofion cynnes at bawb sy'n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy'n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i'w haelwydydd ar hyn o bryd. Nadolig dedwydd i bob un ohonoch.**



**Bu Myfanwy Jones, Cyfarwyddwr newydd Mentrau Iaith Cymru, ar Raglen Dei Tomos ar Radio Cymru yn sgwrsio am ei hoffter o jiwdo a'i hoff gerdd hefyd, sef** ***Mae*** **gan Mererid Hopwood. Mae'r gerdd hon yn rhyw grisialu popeth sy'n ein gwneud ni'n Gymry. Bu'n help i godi calon Myfanwy yn ystod y cyfnod clo. Mae un o ferched Myfanwy wedi darlunio'r gerdd a'i fframio – trysor yn wir i'w mam.**

**Tybed faint ohonoch fu'n gwylio Gwledd ar S4C yn ddiweddar – ffilm yn llawn arswyd, ofn a braw! Clywyd recordiad o Meinir Lloyd yn canu** ***Watshia di dy hun*** **yn y ffilm - cân a gyfansoddwyd yn wreiddiol gan Meinir gyda'i brawd-yng-nghyfraith Elwyn Wilson Jones i gynrychioli Sir Ddinbych mewn cystadleuaeth. Bu'n llwyddiant ysgubol ar y pryd ac yn 2021 recordiwyd fersiwn newydd o'r glasur.**

**Llongyfarchiadau i Rhiannon Jones ar ennill y Gystadleuaeth dan 21 am lunio Tik Tok yn hybu cynnyrch fferm yn Eisteddfod Ffermwyr Ifainc Cymru a gynhaliwyd ar Ynys Môn eleni. Bu'n cystadlu hefyd yn y Ddeuawd Ddoniol. Yn ogystal, roedd Rhiannon ynghyd â Heledd a Tomos Morgans yng Nghôr CFfI Sir Gâr a ddaeth yn drydydd. Da iawn yn wir!**

**Bu'r Dr Llinos yn rhoi cyngor meddygol mewn perthynas â chanser y ceilliau mewn eitem ar y Newyddion ar S4C.**

**Gwelwyd Siwan Jones ar Prynhawn Da ar S4C yn esbonio sut mae wedi'i dewis yn un o lysgenhadon newydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gyda'r nod o hybu ac annog darpar fyfyrwyr i astudio drwy'r Gymraeg mewn prifysgolion yng Nghymru gan ddangos y manteision.**

**Bu Tim Hayes a Jac Thomas yn cymryd rhan mewn fideo byr gan Undeb yr Annibynwyr sy'n esbonio beth yw Diwrnod y Rhuban Gwyn, sef diwrnod ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod. Mae'r diwrnod hwn yn cael ei ddathlu ar y 25ain o Dachwedd bob blwyddyn.**

**Llongyfarchiadau i Caspar Rolant ar ennill gradd MA ym Mhrifysgol Caer-wysg. Roedd ei draethawd terfynol am ynysoedd Tuvalu a sut mae gwledydd yn cadw eu hunaniaeth cenedlaethol yn wyneb yr argyfwng hinsawdd. Pob dymuniad da i'r dyfodol!**

**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Ionawr i'n
Gweinidog neu Alun Charles**

***CWIS NADOLIG 2023- ATEBION***

| | | | |
|---|---|---|---|
| *1* | Croesi'r Môr Coch | *6* | Y Mab Afradlon |
| *2* | Moses a'r Deg Gorchymyn | *7* | Iesu'n cario'r Groes |
| *3* | Dameg yr Heuwr | *8* | Y Storm ar Fôr Galilea |
| *4* | Lasarus yn dod yn fyw | *9* | Daniel yn ffau'r llewod |
| *5* | Iesu'n golchi traed y disgyblion | *10* | Y Samariad Trugarog |

## Diolch i'n Gwesteion Arbennig

### Laura McAllister

Academydd, gwleidydd a chyn chwaraewr pêl-droed yw'r Athro Laura Jean McAllister a aned ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Hi oedd un o'r lleisiau mwyaf blaenllaw i berswadio Cymdeithas Bêl-droed Cymru i gydnabod yr angen am dîm pêl-droed rhyngwladol i ferched. Yn gyn-gapten Cymru, hi yw'r person cyntaf o Gymru i sicrhau lle ar bwyllgor corff llywodraethu pêl-droed Ewrop (UEFA).

### Ioan Gruffudd

Ganed Ioan Gruffudd yn Llwydcoed ger Aberdâr a'i godi yng Nghaerdydd. Bu'n actio yn yr opera sebon Cymraeg *Pobol y Cwm*. Chwaraeodd ei rôl ryngwladol gyntaf fel Pumed Swyddog Harold Lowe yn y ffilm *Titanic*. Wedyn chwaraeodd ran Horatio Hornblower yn *Hornblower*. Mae ei waith fel actor ar y teledu ac ym myd y ffilmiau'n eang ac amrywiol iawn.
Derbyniwyd i'r Orsedd yn 2003.

**Gwerthfawrogwn fod Laura a Ioan yng nghanol eu prysurdeb wedi rhoi o'u hamser i'n helpu a dymunwn yn dda iddynt dros y Nadolig.**

# Y SULIADUR

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhagfyr** | **3** | ***Bore*** ***Hwyr*** | Ein Gweinidog<br>Gwasanaeth Plygain Merched y Wawr yn Y Tabernacl am 7.30 | **C** |
| | **10** | ***Bore*** ***Hwyr*** | Cwrdd Nadolig y Priordy am 10<br>Gwasanaeth Nadolig PIP dan Olau Cannwyll am 5 | |
| | **17** | ***Bore*** ***Hwyr*** | Oedfa'r Ofalaeth yng Nghana gyda'n Gweinidog<br>Oedfa'r Ofalaeth yn y Gymuned ym Mancyfelin gyda'n Gweinidog am 6 | |
| | **24** | ***Bore*** ***Hwyr*** | Oedfa Ddigidol gyda'n Gweinidog<br>Epilog dros zoom gyda'n Gweinidog am 9 | |
| **Bore Nadolig** | **25** | ***Bore*** | Oedfa Deulu'r Ofalaeth yn y Priordy gyda'n Gweinidog am 9 | |
| | **31** | ***Bore*** | Oedfa'r Ofalaeth ym Manyfelin gyda'n Gweinidog am 10 | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ionawr** | **7** | ***Bore*** | Oedfa Deulu ar gyfer yr Ofalaeth | **C** |
| | **14** | ***Bore*** | Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog yng Nghanolfan Magu yn y dref | |
| | **21** | ***Bore*** | Y Parchedig Guto Prys ap Gwynfor | |
| | **28** | ***Bore*** | Ein Gweinidog | |

| **CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant OD – Oedfa Deulu** | | | | | | | | |
| **Rhagfyr** | | | | | **Ionawr** | | | |
| **3** | **10** | **17** | **24** | **31** | **7** | **14** | **21** | **28** |
| ✓ | **ON** | **-** | **-** | **-** | **OD** | **OD** | ✓ | ✓ |

**Rhyddheir oedfa ddigidol bob Sul**

**Y GYMDEITHAS**
**Cyfarfod y Nadolig**
**Dydd Llun – 4 Rhagfyr 2023 – Y Festri - 2 o'r gloch**
**yng nghwmni**
**Plant Ysgol y Dderwen ac Eraill**